

All Wales Child Protection Procedures
Review Group
Grŵp Adolygu Canllawiau Amddiffyn
Plant Cymru Gyfan



PROTOCOL CYMRU GYFAN

LLURGUNIO ORGANAU RHYWIOL MERCHED (FGM)

2011

Adolygiad Terfynol:	Mehefin 2011
Awdur:	Caroline Jones
Cyfnod ymgynghori	
Gweithredu:	Mehefin 2011
Adolygu :	2014

**Cymerwyd y Protocol hwn o brotocol Pwyllgor
Amddiffyn Plant Ardal (ACPC) Caerdydd 2004.**

**Mae Grŵp Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant
Cymru Gyfan yn dymuno cydnabod gwaith ACPC
Caerdydd a mynegi eu diolch iddynt am ganiatáu i'w
protocol gael ei ddefnyddio. Mae'r grŵp hefyd yn
cydnabod y gwaith ychwanegol a wnaed gan Fwrdd
Lleol Diogelu Plant Llundain gyfan**

**Dylid darllen y weithdrefn hon ar y cyd â
Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008)**

**Mae Canllawiau Amlasiantaeth Llywodraeth EM:
Female Genital Mutilation, Y Swyddfa Dramor a
Chymanwlad 2011, yn cynnwys gwybodaeth helaeth i
gynorthwyo ymarferwyr sy'n gweithio gyda menywod
a phlant.**

Cynnwys

	Tudalen
1. Protocol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc	4
1.1 Datganiad ar Gyfle Cyfartal	4
2. Egwyddorion	4
3. Deddfwriaeth	4
4. Diffiniad	6
5. Oedran a'r Weithred	6
6. Canlyniadau Llungunio Organau rhywiol Merched	7
7. Arwyddion a Dangosyddion	8
8. Gweithdrefnau a Chanllawiau Ymarfer	10
9. Y Safbwynt Cyfreithiol	12
10. Rhannu Gwybodaeth	13
11. Canllawiau Proffesiynol ar Llungunio Organau rhywiol Merched i Weithwyr Iechyd Proffesiynol	17
12. Arfer Da i Staff sy'n Gweithio mewn Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol	19
13. Canllawiau Arfer Da: Rôl yr Heddlu	19
14. Canllawiau Arfer Da: Rôl y Sector Gwirfoddol	20
15. Canllawiau Arfer Da i Staff sy'n Gweithio yn yr Awdurdodau Addysg	21
16. Cyfeiriadau	22
Atodiad 1	23

1. PROTOCOL AR GYFER PLANT A PHOBL IFANC

1.1 Datganiad ar Gyfle Cyfartal

Mae'r protocol hwn yn effeithio ar grŵp o bobl ifanc sy'n arbennig o agored i niwed. Mae angen i unrhyw benderfyniadau neu gynlluniau ar gyfer y plant/y bobl ifanc hyn fod yn seiliedig ar asesiadau o ansawdd da a bod yn sensitif i faterion hil, diwylliant, rhywedd, crefydd a rhywioldeb, i'r graddau nad ydynt yn gwarthnodi'r plentyn na'r gymuned sy'n arfer y traddodiad.

2. EGWYDDORION

2.1 Mae Llurgunio Organau Rhywiol Merched yn anghyfreithlon ac yn waharddedig dan **Ddeddf Llurgunio Organau Rhywiol Merched 2003**.

2.2 Cydnabyddir fod rhai teuluoedd yn ystyried bod Llurgunio Organau Rhywiol Merched (FGM) yn weithred o gariad yn hytrach na chreulondeb, fodd bynnag mae Llurgunio Organau Rhywiol Merched yn achosi niwed sylweddol yn y byrdymor a'r hirdymor ac mae'n gyfystyr â cham-drin plant yn gorfforol ac yn emosiynol.

2.3 Mae'n rhaid i'r protocol gael ei danategu gan Wasanaethau Iechyd, Addysg, Heddlu, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau yn y Sector Gwirfoddol sy'n hygyrch, yn dderbyniol ac yn sensitif.

2.4 Dylai'r holl asiantaethau weithio mewn partneriaeth gydag aelodau o gymunedau lleol, i rymuso unigolion i ddatblygu rhwydweithiau cymorth a rhaglenni addysg.

2.5 Hawliau'r Plentyn fel a nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig (1989) fydd yn tanategu'r protocol hwn.

2.6 Mae diogelwch a lles y plentyn o'r pwys mwyaf.

3. DEDDFWRIAETH

3.1 Mae deddfwriaeth yn erbyn llurgunio organau rhywiol merched yn y DU yn cynnwys safonau rhyngwladol a deddfwriaeth genedlaethol.

3.2 Mae dau gonfensiwn rhyngwladol, sy'n cynnwys erthyglau, y gellir eu cymhwysu i fater llurgunio organau rhywiol merched.

Mae gan wladwriaethau sydd wedi llofnodi'r confensiynau, gan gynnwys y DU, rwymedigaeth dan y safonau hyn i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn llurgunio organau rhywiol merched.

3.3 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, a gadarnhawyd gan Lywodraeth y DU ar yr 16^{eg} o Ragfyr 1991, oedd yr offeryn cyfrwymol cyntaf i fynd i'r

afael yn benodol ag arferion traddodiadol niweidiol fel ymyriad â hawliau dynol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol yn benodol i Lywodraethau gymryd pob mesur effeithiol a phriodol gyda golwg ar ddiddymu arferion traddodiadol sy'n niweidiol i iechyd plant.

3.4 Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod, a ddaeth i rym ym 1981, yn cydnabod llurgunio organau rhywiolmerched fel math o drais ar sail rhywedd yn erbyn menywod. Mae'n galw ar y Llywodraethau sydd wedi'i lofnodi i gymryd mesurau priodol ac effeithiol gyda golwg ar ddileu'r arfer, gan gynnwys cyflwyno strategaethau gofal iechyd ac addysg priodol.

3.5 Deddfwriaeth Genedlaethol

3.5.1 Yn y DU, mae pob math o lurgunio organau rhywiol merched yn anghyfreithlon dan Ddeddf Llurgunio Organau Rhywiol Merched 2003.

Fe ddisodlodd y Ddeddf newydd hon ddeddf flaenorol, sef Deddf Gwahardd Enwaedu Benywod 1985. Fe gyflwynodd drosedd newydd sef mynd â phlentyn allan o'r DU at ddibenion llurgunio organau rhywiol merch.

Heblaw am lawdriniaethau angenrheidiol gan ymarferwyr cymeradwy, mae person yn euog o drosedd os yw'n torri, yn gwaëgu neu'n llurgunio mewn ffordd arall y cyfan neu ran o weflau mwyaf, gweflau lleiaf neu glitoris merch.

Troseddau eraill a ddisgrifir yn y Ddeddf yw:

- * Cynorthwyo merch i lurgunio ei horganau rhywiol ei hun
- * Cynorthwyo person y tu allan i'r DU i lurgunio organau rhywiol merch mewn gwlad dramor

Mae llurgunio organau rhywiol merched yn drosedd sy'n ymestyn i weithredoedd a gyflawnir y tu allan i'r Deyrnas Unedig. Bydd unrhyw berson a geir yn euog o drosedd dan y Ddeddf yn agored i ddirwy neu i gael ei garcharu am hyd at 14 mlynedd, neu'r ddau.

3.5.2 Mae llurgunio organau rhywiol merched yn gyfystyr â cham-drin plant. Mae'n anghyfreithlon. Fe'i cyflawnir ar blentyn nad yw'n gallu gwrthsefyll y weithred ac na ellir ystyried ei bod yn cydsynio mewn unrhyw ffordd â rhywbeth sy'n weithred anghyfreithlon.

Roedd **Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant (2000)** yn datgan, os oes gan Awdurdod Lleol reswm dros gredu bod plentyn yn debygol o ddioddef niwed sylweddol o ganlyniad i lurgunio organau rhywiol merch, y dylai ystyried i ba raddau y dylai ddefnyddio'i bwerau ymchwilio dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

Mae dogfen a gyhoeddwyd wedi hynny, **Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006)** (Diogelu Plant) yn cymeradwyo Cylchlythyr Cyfarwyddyd y Swyddfa Gartref 010/2004 The Female Genital Mutilation Act sy'n datgan y dylid ymchwilio i droseddau llurgunio

organau rhywiolmerched dan y canllawiau a nodir yn Diogelu Plant. Mae'r canllawiau'n datgan hefyd y dylid cadw'r canlynol mewn cof:

- Er gwaethaf y canlyniadau difrifol iawn i iechyd, mae rhieni a phobl eraill sy'n trefnu i hyn gael ei wneud i'w plant yn credu o ddifrif bod cydymffurfio â'u harfer cyffredin yn rhywbeth sydd er lles y plentyn. Maent yn credu bod y weithred yn gwneud y plentyn yn dderbyniol yn gymdeithasol ac nid ydynt yn ei bwriadu fel gweithred o gam-drin; ac
- Nid oes elfen o ailadrodd – gweithred unigol o gam-drin ydyw (er y gall fod perygl i chwirydd ifancach unrhyw ferch y cafwyd fod ei horganau rhywiol wedi cael eu llurgunio).

Dan **Ddeddf Plant 1989**, gall Awdurdodau gyflwyno cais i'r Llysoedd am amryw Orchmynion i atal plentyn rhag cael ei chymryd dramor at ddibenion llurgunio ei horganau rhywiol.

4. DIFFINIAD

4.1 Mae Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) yn diffinio llurgunio organau rhywiol merched fel a ganlyn: pob gweithred (nid llawdriniaethau) sy'n golygu tynnu organau rhywiol allanol merch yn rhannol neu'n llwyr neu anaf i organau rhywiol merch boed am resymau diwylliannol neu resymau antherapiwtig eraill (WHO, 1996).

4.2 Mae llurgunio organau rhywiol merched, a elwir weithiau'n Enwaedu Benywod, yn arfer traddodiadol, ac mae tri math i'w cael:

Math 1 – Enwaedu (Sunna)

Hwn yw'r math lleiaf difrifol o lurgunio organau rhywiol merched ac mae'n golygu tynnu cwfl y clitoris gan gadw'r clitoris ei hun. Gelwir y math hwn o weithred hefyd yn Sunna, sy'n golygu 'traddodiad' mewn Arabeg.

Math 2 – Torri (Clitoridectomi)

Mae hyn yn golygu tynnu'r clitoris yn rhannol neu'n llwyr ynghyd â rhannau neu'r cyfan o'r gweflau lleiaf (gweflau bychain sy'n gorchuddio ac yn gwarchod agoriad y wain a'r agoriad wrinol). Ar ôl i'r broses iacháu ddigwydd, mae meinwe greithiog fawr yn ffurfio ac yn gorchuddio rhan uchaf ardal y fylfa.

Math 3 – Gwaëgu (fe'i gelwir hefyd yn Enwaedu Pharaonig)

Hwn yw'r math mwyaf difrifol o lurgunio organau rhywiol merched. Mae'r term 'gwaëgu' yn deillio o'r enw a roddwyd i'r arfer Rhufeinig o osod 'gwaëg' neu 'glasb' trwy weflau mwyaf organau rhywiol eu gwagedd er mwyn eu hatal rhag cael cyfathrach rywiol anghyfreithlon.

Yn y weithred o waëgu, mae'r clitoris, y cyfan o'r gweflau lleiaf a'r rhannau mewnol o'r gweflau mwyaf (gweflau allanol yr organau rhywiol, sy'n iro tu mewn y plygiadau croen i atal dolur) yn cael eu tynnu. Mae dwy ochr y Fylfa wedyn yn cael eu gwnïo gyda'i gilydd

â phwythau wedi'u gwneud o gwt neu sidan, neu ddrain, gan adael agoriad bach iawn yn unig i alluogi wrin a mislif i basio trwodd.

4.3 Math 4 – Diddosbarth

Mae hyn yn cynnwys pob llawdriniaeth arall ar organau rhywiol merched gan gynnwys pricio, tyllu, ac ymestyn ardal y fylfa, endorri'r clitoris ac/neu'r gweflau, serio trwy losgi'r clitoris a'r meinweoedd o'i amgylch, endoriadau yn wal y wain, crafu (toriadau angwria) neu dorri (toriadau gishiri) y wain a'r meinweoedd o'i hamgylch.

5. OEDRAN A'R WEITHRED

5.1 Mae'r oedran pan fo organau rhywiol merched yn cael eu llurgunio'n amrywio'n fawr, **o'r adeg yn fuan wedi iddynt gael eu geni i unrhyw adeg nes eu bod yn oedolion.**

5.2 Mae llurgunio organau rhywiol merched fel arfer yn weithred a gyflawnir gan y menywod hŷn mewn cymuned sy'n arfer y traddodiad, ac mae'n ffordd o ennill bri iddynt ac yn gallu bod yn ffynhonnell incwm enillfawr mewn rhai cymunedau.

5.3 Mae'r trefniadau ar gyfer y weithred fel arfer yn cynnwys nifer o fenywod yn dal y plentyn i lawr ar y llawr a'r weithred yn cael ei chyflawni heb arbenigedd meddygol, heb sylw i hylendid a heb anaesthesia. Mae'r offer a ddefnyddir yn cynnwys cyllyll cartref, llafnau raseli, gwydr toredig a cherrig â min arnynt a'r rhain oll heb eu diheintio. Yn ogystal â hynny, cyflawnir y weithred ar y plentyn pan nad yw'n disgwyl hynny.

5.4 Yn gynyddol mae rhai gweithwyr iechyd proffesiynol yn cyflawni gweithredoedd llurgunio organau rhywiol merched gan gredu bod hynny'n diogelu'r ferch yn fwy rhag haint a phoen. Fodd bynnag, mae'r arfer o droi llurgunio organau rhywiol merched yn weithred feddygol yn cael ei gondemnio gan bob grŵp rhyngwladol gan gynnwys Sefydliad Iechyd y Byd ac mae'n anghyfreithlon.

6. CANLYNIADAU LLURGUNIO ORGANAU RHYWIOL MERCHED

6.1 Mae nifer o'r menywod mewn cymunedau sy'n arfer y traddodiad fel pe baent heb ymwybyddiaeth o'r berthynas rhwng llurgunio organau rhywiol merched a chanlyniadau niweidiol hynny i iechyd a lles, yn enwedig y cymhlethdodau sy'n effeithio ar gyfathrach rywiol a genedigaeth, sy'n digwydd sawl blwyddyn wedi i'r weithred llurgunio gael ei chyflawni.

6.2 Gall y goblygiadau o ran iechyd i ferch sydd wedi mynd trwy'r weithred i lurgunio organau rhywiolfod yn ddifrifol a hyd yn oed yn angheuol, gan ddibynnu ar y math o weithred i lurgunio organau rhywiola gyflawnir.

6.3 Fel gyda phob math o gam-drin neu drawma a ddioddefir gan blant, bydd effaith llurgunio organau rhywiol ar blentyn yn dibynnu ar ffactorau megis:

- Difrifoldeb a natur y trais

- Gwydnwch cynhenid y plentyn unigol
- Y cynhesrwydd a'r gefnogaeth y mae'r plentyn yn eu derbyn yn ei pherthynas â'i rhiant/rhieni, siblingiaid ac aelodau eraill o'r teulu
- Natur a hyd perthnasoedd a rhwydweithiau cymdeithasol ehangach y plentyn
- Trawmâu blaenorol neu ddilynol a brofwyd gan y plentyn
- Nodweddion arbennig ar rywedd, tarddiad ethnig, oedran, (an)abledd, a chefnidir economaidd-gymdeithasol a diwylliannol y plentyn.

6.4 Goblygiadau byrdymor i iechyd a lles plentyn

6.4.1 Gall y goblygiadau byrdymor i iechyd gynnwys:

- Poen ddifrifol
- Sioc emosiynol a seicolegol (a waethygir am eu bod yn gorfod dygymod â'r ffaith bod y trawma'n cael ei achosi iddynt gan rieni, teulu estynedig a ffrindiau cariadus)
- Gwaedlif
- Heintiau yn y clwyf gan gynnwys Tetanws a firysau a gludir yn y gwaed (gan gynnwys HIV a Hepatitis B a C)
- Ataliad wrin
- Anaf i feinweoedd cyfagos
- Torri asgwrn neu ddatgymalu cymal o ganlyniad i gael eu dal i lawr
- Niwed i organau eraill
- Marwolaeth

6.5 Goblygiadau hirdymor i iechyd a lles merch neu fenyw

6.5.1 Mae'r goblygiadau mwy hirdymor i fenywod y cyflawnwyd Mathau 1 a 2 o lurgunio organau rhywiol merched arnynt yn debygol o fod yn gysylltiedig â thrawma'r weithred ei hun. Serch hynny, mae dadansoddiad o ddata a gasglwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd wedi dangos, o'i gymharu â menywod nad yw eu horganau rhywiol wedi cael eu llurgunio, bod menywod a oedd wedi bod trwy unrhyw fath o weithred i lurgunio organau rhywiolwedi dangos cynnydd mewn cymhlethdodau yn ystod genedigaeth, a'r rheiny'n waeth gyda Math 3. Felly, er mai Math 3 sy'n creu'r rhan fwyaf o anawsterau, dylai gweithwyr proffesiynol ymateb yn rhagweithiol i bob math o weithred i lurgunio organau rhywiol merched.

6.5.2 Mae'r problemau iechyd a achosir gan weithred i lurgunio organau rhywiolmerched Math 3 yn ddifrifol – problemau wrinol, anhawster gyda misglwyf, poen yn ystod cyfathrach rywiol, diffyg teimlad pleserus, problemau seicolegol, anffrwythlondeb, heintiau yn y wain, problemau penodol yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth, gan gynnwys ôl-fflachiau.

6.5.3 Mae ar fenywod sydd wedi dioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merched Math 3 angen gofal arbennig yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth.

6.5.4 Mae'r goblygiadau sy'n deillio i iechyd yn yr hirdymor o ganlyniad i lurgunio organau rhywiol merched yn cynnwys:

- Heintiau cronig yn y wain a'r pelfis
- Anawsterau gyda misglwyf
- Anawsterau wrth basio wrin a heintiau wrinol cronig
- Nam ar yr arenau a phosibilrwydd y bydd yr arenau'n methu
- Niwed i'r system genhedlu gan gynnwys anffrwythlondeb
- Codenni, niwromâu a chreithiau celoid yn ffurfio o ganlyniad i waëgu,
- Cymhlethdodau yn ystod beichiogrwydd ac oedi yn ystod yr ail gyfnod wrth roi genedigaeth
- Y fam neu'r ffoetws yn marw
- Niwed seicolegol; gan gynnwys nifer o broblemau iechyd meddwl a seicorywiol gan gynnwys iselder, pryder, a chamweithrediad rhywiol
- Risg cynyddol o HIV a heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol

7. ARWYDDION A DANGOSYDDION

7.1 Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol o'r posibilrwydd o lurgunio organau rhywiol merched.

Isod ceir rhai dangosyddion sy'n awgrymu bod gweithred i lurgunio organau rhywiol merch wedi neu'n mynd i ddigwydd. Fodd bynnag nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr a dylai gweithwyr proffesiynol fod ar eu gwylidwriaeth bob amser.

Ceir mwy o wybodaeth yng Nghanllawiau Ymarfer Amlasiantaeth Llywodraeth EM: FemaleGenitalMutilation (Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad 2011)

http://www.dh.gov.uk/prod_consum_dh/groups/dh_digitalassets/documents/digitalasset/dh_124588.pdf

Mae'r arwyddion y gall fod gweithred i lurgunio organau rhywiol merch ar fin digwydd yn cynnwys:

- Mae'r teulu'n dod o gymuned y gwyddys ei bod yn dilyn yr arfer o lurgunio organau rhywiol merched e.e. Somalia, Swdan a gwledydd Affricanaidd eraill. Gall fod yn bosib y byddant yn dilyn yr arfer o lurgunio organau rhywiolmerched os oes aelod benywaidd hŷn o'r teulu o gwmpas. (Gweler Atodiad 1 ar gyfer gwledydd lle mae llurgunio organau rhywiol merched yn arfer cyffredin)
- Mae rhieni'n datgan y byddant hwy neu berthynas yn mynd â merch allan o'r wlad am gyfnod hir.
- Bydd merch o bosib yn siarad am wyliau hir i'w mamwlad neu wlad arall lle mae'n arfer cyffredin, gan gynnwys gwledydd Affricanaidd a'r Dwyrain Canol.
- Bydd merch o bosib yn dweud yn gyfrinachol wrth weithiwr proffesiynol ei bod yn mynd i gael 'gweithred arbennig' neu ei bod yn mynd i ddigwyddiad arbennig.
- Mae gweithiwr proffesiynol yn clywed cyfeiriad at lurgunio organau rhywiol merched mewn sgwrs, er enghraifft bydd merch o bosib yn dweud wrth blant eraill am yr arfer.
- Bydd merch o bosib yn gofyn am help gan athro/athrawes neu oedolyn arall.

- Mae'n rhaid ystyried bod unrhyw ferch a enir i fenyw y mae ei horganau rhywiol wedi cael eu llurgunio mewn perygl, ac felly hefyd blant benywaidd eraill yn y teulu estynedig.
- Mae'n rhaid ystyried bod unrhyw ferch sydd â chwaer y mae ei horganau rhywiol eisoes wedi cael eu llurgunio mewn perygl, ac felly hefyd blant benywaidd eraill yn y teulu estynedig.

Mae arwyddion y gall fod gweithred i lurgunio organau rhywiol merch wedi digwydd yn barod yn cynnwys:

- Bydd merch o bosib yn treulio cyfnodau hir allan o'r dosbarth yn ystod y dydd oherwydd problemau gyda'i phledren neu fisglwyf os yw wedi dioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merch Math 3
- Gall fod absenoldebau hir o'r ysgol os yw hi wedi dioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merch Math 3
- Gall absenoldeb hir o'r ysgol ynghyd â newidiadau amlwg mewn ymddygiad ar ôl dychwelyd fod yn arwydd bod merch wedi dioddefgweithred i lurgunio organau rhywiolmerch yn ddiweddar
- Mae angen i weithwyr proffesiynol fod yn effro i anghenion emosiynol a seicolegol plant a all fod/sydd yn dioddef canlyniadau anffafriol yr arfer e.e. y ferch yn mynd i'w chragen, iselder a.y.b.
- Merch yn gofyn am gael ei hesgusodi o wersi ymarfer corff heb gefnogaeth ei meddyg teulu
- Bydd merch o bosib yn gofyn am help

7.2 Rhesymau a roddir dros barhau â'r arfer o lurgunio organau rhywiol merched

7.2.1 Mae llurgunio organau rhywiol merched yn fater cymhleth, ac er gwaethaf y niwed y mae'n ei achosi, mae nifer o fenywod o gymunedau sy'n arfer y traddodiad o lurgunio organau rhywiol merched yn ystyried bod llurgunio organau rhywiol merched yn normal er mwyn gwarchod eu hunaniaeth ddiwylliannol.

7.2.2 O ganlyniad i systemau cred grwpiau diwylliannol sy'n arfer y traddodiad o lurgunio organau rhywiol merched, mae nifer o fenywod y mae eu horganau rhywiol wedi cael eu llurgunio'n credu eu bod yn ymddangos yn fwy deniadol na menywod nad ydynt wedi cael eu gwaëgu. Eu canfyddiad yw bod organau rhywiol benywaidd arferol yn anneniadol ac yn anhylan. Mewn rhai diwylliannau credir fod merch nad yw ei horganau rhywiol wedi cael eu llurgunio yn aflan ac nad yw'n gallu trin bwyd na diod.

7.2.3 Mae cysylltiad cryf rhwng gwaëgu a gwryfydod a diweirdeb. Fe'i defnyddir i ddiogelu merched rhag cael rhyw y tu allan i briodas a rhag cael teimladau rhywiol. Mewn diwylliannau mwy traddodiadol ystyrir ei bod yn angenrheidiol pan fo merch yn priodi i'r gŵr a'i deulu gael gweld ei bod wedi cael ei chau. Mewn rhai achosion bydd y ddwy fam yn mynd â'r ferch i gael ei thorri ar agor ddigon i allu cael rhyw. Mae'n rhaid i fenywod gael eu torri ar agor i roi genedigaeth hefyd. Canlyniadau hyn yw poen, gwaedu, graddau amrywiol o analluogrwydd a thrawma seicolegol.

7.2.4 Er bod llurgunio organau rhywiol merched yn draddodiad sy'n cael ei arfer gan gymunedau secwlar, honnir gan amlaf fod y weithred yn cael ei chyflawni yn unol â daliadau crefyddol. Fodd bynnag, nid yw'r Beibl, na'r Corân, yn cyfiawnhau llurgunio organau rhywiol merched. Yn 2006, cyhoeddodd y clerigwyr uchaf yn y ffydd Islamaidd mewn cynhadledd ryngwladol ar lurgunio organau rhywiol merched yn yr Aifft nad yw llurgunio organau rhywiol merched yn draddodiad Islamaidd.

7.2.5 Mae rhieni sy'n cefnogi'r arfer o lurgunio organau rhywiol merched yn dweud eu bod yn gweithredu er lles y plentyn. Mae'r rhesymau y maent hwy'n eu rhoi'n cynnwys:

- Ei fod yn rhoi statws a pharch i'r ferch
- Ei fod yn gwarchod gwryfodod/diweirdeb y ferch
- Ei fod yn rhan o fod yn fenyw
- Ei fod yn ddefod newid byd
- Ei fod yn rhoi derbyniad cymdeithasol i ferch yn enwedig ar gyfer priodas
- Ei fod yn cynnal anrhydedd y teulu
- Ei fod yn gwneud i'r ferch a'i theulu deimlo'u bod yn perthyn i'r gymuned
- Ei fod yn ateb gofyniad crefyddol y credir ar gam ei fod yn bodoli
- Ei fod yn bytholi defod/traddodiad
- Ei fod yn helpu merched a menywod i fod yn lân ac yn hylan
- Ei fod yn ddymunol o safbwynt cosmetig, ac
- Y credir ar gam ei fod yn gwneud genedigaeth yn fwy diogel i'r baban.

7.2.6 Oherwydd y daliadau hyn y mae cymunedau sy'n arfer y traddodiad yn ystyried fel arfer bod merched a menywod nad yw eu horganau rhywiol wedi cael eu llurgunio yn anaddas ar gyfer priodas. Mae menywod sydd wedi ceisio ymatal rhag gadael i'w merched fynd trwy weithred i lurgunio eu horganau rhywiol yn dweud eu bod hwy a'u teuluoedd wedi cael eu halltudio gan eu cymuned ac wedi cael eu hysbysu na fyddai unrhyw un yn dymuno priodi eu merched.

8. GWEITHDREFNAU A CHANLLAWIAU YMARFER

8.1 Dylai'r holl asiantaethau weithio gyda'r cymunedau sy'n dilyn yr arfer i ddatblygu rhaglenni addysg a rhaglenni ataliol priodol gyda golwg ar ddileu'r arfer o enwaedu benywod.

8.2 Mae'n rhaid i'r **holl** staff sydd â chyfrifoldeb am waith amddiffyn plant ymgyswrtu â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan ac unrhyw raglenni ataliol lleol sy'n bodoli.

8.3 Mae'n rhaid i unrhyw wybodaeth neu bryder bod plentyn mewn perygl o ddiodef, neu wedi diodef gweithred i lurgunio organau rhywiolmerch arwain at atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol ac/neu'r heddludan weithdrefnau amddiffyn plant.

8.4 Mae llurgunio organau rhywiol merched yn achosi risg o niwed sylweddol i blentyn a bydd felly'n arwain at ymchwiliad (i ddechrau) dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989 gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a thîm amddiffyn plant yr heddlu.

8.5 Cyfarfod Strategaeth

8.5.1 Yn dilyn derbyn atgyfeiriad mae'n rhaid cynnull**cyfarfod strategaetha** hwnnw'n cynnwys cynrychiolwyr o'r heddlu, y gwasanaethau cymdeithasol, y gwasanaethau iechyd, y gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau gwirfoddol. Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i gynnwys cynrychiolaeth briodol o safbwynt agweddau ieithyddol, pediatrig, diwylliannol arbenigol a chyfreithiol.

8.5.2 Mae'n rhaid i'r cyfarfod strategaeth ganfod yn gyntaf a oes gan y rhieni neu'r plentyn fynediad at wybodaeth am yr agweddau niweidiol ar lurgunio organau rhywiol merched.

8.5.3 Os nad oes, dylai'r rhieni/plentyn gael cynnig y cyfle i ddilyn rhaglenni addysgol / ataliol.

8.5.4 Mae'n rhaid defnyddio cyfieithydd ar y pryd ym mhob cyfweiliad gyda'r teulu os nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Ni ddylai'r cyfieithydd fod yn berthynas i'r teulu. Mae'n rhaid i'r cyfieithydd fod yn fenyw a bod wedi dilyn y prosesau recriwtio a hyfforddiant priodol mewn perthynas â diogelu plant.

8.5.5 Dylid gwneud pob ymgais i weithio gyda'r rhieni ar sail wirfoddol i atal y gamdriniaeth. Dyletswydd y tîm sy'n ymchwilio yw ystyried pob ffordd bosib o gael cydweithrediad y rhieni. Fodd bynnag, mae lles y plentyn wastad o'r pwys mwyaf.

Dylid cael cytundeb a'i gofnodi yng nghofnodion y plentyn i ddatgan sut y bydd asiantaethau'n gweithio gyda'r rhieni i fonitro lles y plentyn.

8.5.6 Os na cheir cytundeb, y flaenoriaeth gyntaf yw amddiffyn y plentyn a dylid cymryd camau cyfreithiol priodol i sicrhau diogelwch y plentyn.

8.5.7 Y prif ffocws yw atal y ferch rhag dioddef unrhyw fath o weithred i lurgunio organau rhywiol, yn hytrach na mynd â'r ferch oddi wrth y teulu.

8.5.8 Dylid cynnal trafodaeth ynghylch sut y bydd lles y plentyn yn cael ei fonitro yn y dyfodol a dylid cofnodi mesurau y cytunwyd arnynt.

8.5.9 Dylid ystyried datblygu cynllun diogelwch a chymorth ar gyfer aelodau o'r gymuned sy'n ofni gelyniaeth o du'r teulu neu'r gymuned o ganlyniad i godi pwnc llurgunio organau rhywiol merched.

8.6 Plant mewn perygl uniongyrchol

8.6.1 Lle mae'n ymddangos bod y plentyn mewn perygl uniongyrchol o ddioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol mercha lle nad yw'r rhieni'n gallu rhoi sicrwydd boddhaol na fyddant yn bwrw ymlaen â'r weithred, yna dylid ceisio Gorchymyn Amddiffyn Brys.

8.7 Os yw plentyn eisoes wedi dioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merch

8.7.1 Os yw plentyn eisoes wedi dioddef gweithred i lurgunio organau rhywiolmerch a bod hyn yn cael ei ddwyn i sylw unrhyw weithiwr proffesiynol, mae'n rhaid atgyfeirio'r mater at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu, yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan, ac mae'n rhaid cynnull cyfarfod strategaeth i ystyried sut, ble a phryd y cafodd y weithred ei chyflawni a'i goblygiadau.

8.7.2 Dylid ystyried bod plentyn sydd wedi dioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merchyn blentyn mewn angen a dylid cynnig gwasanaethau i'r plentyn fel y bo'n briodol. Mae asesiad cyfannol gan gynnwys archwiliad corfforol o'r plentyn yn bwysig iawn. Dylai'r asesiad hwn ynghyd â gwasanaethau therapiwtig gael ei ystyried yn y cyfarfod strategaeth a'i gynnig ym mhob achos.

8.7.3 Mae'n rhaid ystyried y risg i blant benywaidd eraill yn y teulu ar adeg y cyfarfod strategaeth. Os yw rhieni plentyn yn benderfynol o anfon eu merch allan o'r wlad a bod yr asiantaethau'n ystyried ei bod yn debygol o ddioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merch os bydd yn mynd, dylid ceisio cyngor cyfreithiol.

8.8 Os yw menyw eisoes wedi dioddef gweithred i lurgunio ei horganau rhywiol

8.8.1 Os yw menyw eisoes wedi dioddef gweithred i lurgunio ei horganau rhywiola bod hyn yn cael ei ddwyn i sylw unrhyw weithiwr proffesiynol, mae angen ystyried unrhyw oblygiadau o ran amddiffyn plant e.e. i siblingiaid iau, aelodau o'r teulu estynedig a dylid atgyfeirio'r mater at y gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu os yw'n briodol.

8.8.2 Os yw'r fenyw'n fam i blentyn benywaidd neu'n gofalu am blant benywaidd, dylid gwneud atgyfeiriad at y Gwasanaethau Cymdeithasol dan y Fframwaith ar gyfer Asesu Plant mewn Angen a'u Teuluoedd. Bydd hyn yn helpu i adnabod y ffordd fwyaf priodol o hysbysu rhieni ynghylch y goblygiadau cyfreithiol a'r goblygiadau o ran iechyd sy'n gysylltiedig â llurgunio organau rhywiolmerched ac asesu'r risg posib i blant benywaidd yn y teulu. Os na roddir cydsyniad ar gyfer atgyfeiriad dan y Fframwaith Plant mewn Angen dylid gwneud atgyfeiriad dan y gweithdrefnau Amddiffyn Plant.

8.8.3 Ni ddylid ond ystyried bod cynhadledd amddiffyn plant yn angenrheidiol os oes materion amddiffyn plant sydd heb eu datrys unwaith y bydd yr ymchwiliad a'r asesiad cychwynnol wedi cael eu cwblhau.

9 Y SAFBWyNT CYFREITHIOL

Mae llurgunio organau rhywiol merched yn drosedd dan **Ddeddf Llurgunio Organau Rhywiol Merched 2003** (a ddisodlodd Ddeddf Gwahardd Enwaedu Benywod 1985). Gellir dedfrydu rhywun i 5 mlynedd o garchar am y trosedd hwn os ceir y person yn euog trwy ddiad o fod wedi cyflawni gweithred i lurgunio organau rhywiol merch.

Gellir cyflwyno amddiffyniad am resymau meddygol, os cyflawnwyd y weithred gan ymarferydd meddygol, gan law'r unig esemptiad yn y Ddeddf yw pan gyflawnir y weithred am resymau corfforol ac iechyd meddwl penodol. Nid yw arferion neu ddefodau diwylliannol yn cael eu derbyn fel amddiffyniad.

Mae hefyd yn drosedd dan y Ddeddf pan fo rhywun yn trefnu, yn peri, yn cynorthwyo neu'n annog llurgunio organau rhywiol merch ac os ceir rhywun yn euog trwy dditiad gellir rhoi dedfryd o garchar am bum mlynedd.

Mae bellach yn drosedd mynd â phlentyn allan o'r DU at ddibenion llurgunio organau rhywiol merch.

Felly gallai rhieni/gofalwyr hefyd fod yn agored i gael eu herlyn dan y gyfraith.

10. RHANNU GWYBODAETH

Yn yr Adolygiad o'r Mesurau i Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc sy'n cael Triniaeth a Gofal gan y GIG yng Nghymru "Peth Rhy Ddifrifol" fe ddatganodd yr Arglwydd Carlile fel a ganlyn:

"Nid oes unrhyw beth yn adroddiadCaldicott, Deddf Diogelu Data 1998 na Deddf Hawliau Dynol 1998 a ddylaiatal gweithredoedd cyfiawnadwy a chyfreithlon igyfnewid gwybodaeth er mwyn amddiffyn plant neu ganfod neu atal Troseddu Difrifol"

10.1 Y Fframwaith Cyfreithiol

Ni all gweithwyr proffesiynol ond cydweithio i ddiogelu plant os yw gwybodaeth berthnasol yn cael ei chyfnewid rhyngddynt. Fodd bynnag, mae'n rhaid i unrhyw weithred i ddatgelu gwybodaeth bersonol wrth eraill roi ystyriaeth bob amser i gyfraith gwlad a chyfraith statud.

Fel arfer, ni ddylid ond datgelu gwybodaeth bersonol wrth drydydd partïon (gan gynnwys asiantaethau eraill) gyda chydysyniad gwrthrych yr wybodaeth honno. Lle bynnag y bo'n bosib, dylid cael cydsyniad cyn rhannu gwybodaeth bersonol gyda thrydydd partïon.

Dan rai amgylchiadau, efallai na fydd cydsyniad yn bosib neu'n ddymunol ond mae diogelwch a lles plentyn yn golygu y dylai'r wybodaeth gael ei rhannu.

Y ffordd orau o sicrhau bod y broses o rannu gwybodaeth yn cael ei gweithredu'n briodol yw gweithio o fewn protocolau rhannu gwybodaeth a luniwyd yn ofalus rhwng yr asiantaethau a'r gweithwyr proffesiynol dan sylw, a chymryd cyngor cyfreithiol mewn achosion unigol lle y bo'n angenrheidiol.

Gall gweithwyr iechyd proffesiynol rannu gwybodaeth am glaf gyda gweithiwr meddygol proffesiynol arall fel rhan o ddarparu gofal a thriniaeth ar gyfer y claf hwnnw. Dylid gwneud hyn yn unol â'r dyletswyddau cyfrinachedd mewn cyfraith gwlad, â Deddf Diogelu Data 1998 a Deddf Hawliau Dynol 1998. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i'r holl Egwyddorion Diogelu Data. Dylid ystyried unrhyw weithred datgelu gwybodaeth fesul achos unigol a'i chyfyngu i ddatgelu'r wybodaeth y mae'n angenrheidiol ei datgelu er mwyn rhoi triniaeth a gofal meddygol i'r plentyn.

Fel mater o arfer dylid wastad rhoi ystyriaeth i geisio cydsyniad y rhiant ar ran ei b/plentyn (lle nad yw'r plentyn yn gymwys yn ôl canllawiau Fraser), ond lle gall fod bygythiad i ddiogelwch y plentyn o ganlyniad i ddatgelu'r wybodaeth efallai na fydd cydsyniad o'r fath wastad yn angenrheidiol.

Pan fo unrhyw amheuaeth, dylid ceisio cyngor cyfreithiol ynghylch yr amgylchiadau arbennig.

10.2 Y Ddyletswydd Cyfrinachedd mewn Cyfraith Gwlad

Mae gwybodaeth bersonol am blant a theuluoedd a ddelir gan weithwyr proffesiynol ac asiantaethau'n ddarostyngedig i ddyletswydd cyfrinachedd gyfreithiol, ac ni ddylid ei datgelu fel arfer heb gydsyniad y gwrthrych. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu datgelu gwybodaeth gyfrinachol sy'n angenrheidiol i ddiogelu plentyn neu blant er budd y cyhoedd: hynny yw fe allai budd y cyhoedd mewn amddiffyn plant fod yn drech na budd y cyhoedd mewn cynnal cyfrinachedd. Dylai fod cyfiawnhad i ddatgelu'r wybodaeth ym mhob achos, yn ôl ffeithiau arbennig yr achos, a dylid ceisio cyngor cyfreithiol pan fo amheuaeth.

Mae gan blant hawl i'r un ddyletswydd cyfrinachedd ag oedolion, ar yr amod, yn achos y rheiny dan 16, bod ganddynt y gallu i ddeall y dewisiadau a'r canlyniadau mewn perthynas ag unrhyw driniaeth.

Dan amgylchiadau eithriadol, pan fo plentyn yn ceisio cyngor, er enghraifft ynghylch materion rhywiol, gellir credu bod rhywun yn camfanteisio ar y plentyn neu fod y plentyn yn cael ei g/cham-drin. Mewn achosion o'r fath, gellir torri cyfrinachedd, yn dilyn trafod gyda'r plentyn.

10.3 Y Ddeddf Diogelu Data

Mae Deddf Diogelu Data 1998 yn ei gwneud yn ofynnol bod gwybodaeth bersonol yn cael ei chaffael a'i phrosesu mewn modd teg a chyfreithlon; yn peidio â chael ei datgelu ac eithrio dan amgylchiadau priodol; ei bod yn gywir, yn berthnasol ac yn peidio â chael ei chadw am yn hwy nag sy'n angenrheidiol; a'i bod yn cael ei chadw'n ddiogel. Mae'r Ddeddf yn caniatáu datgelu heb gydsyniad y gwrthrych dan rai amodau penodol, gan gynnwys at ddibenion atal neu ganfod trosedd, neu ddal neu erlyn troseddwyr, a lle byddai methu â datgelu'n debygol o beryglu'r amcanion hynny mewn achos arbennig (i gael canllawiau pellach gweler *Deddf Diogelu Data 1998: diogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion* (Yr Adran Iechyd, 1998). Dylid ceisio cyngor cyfreithiol lle y bo'n briodol neu pan fo amheuaeth.

10.4 Confensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol

Mae Erthygl 8 o Gonfensiwn Ewrop ar Hawliau Dynol yn datgan fel a ganlyn:

- 1. Mae gan bawb yr hawl i barch tuag at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth.*
- 2. Ni ddylai awdurdod cyhoeddus ymyrryd mewn unrhyw ffordd ag arfer yr hawl hon heblaw mewn modd sy'n unol â'r gyfraith ac yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er lles diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu les economaidd y wlad, er mwyn atal anhrefn neu drosedd, er mwyn diogelu iechyd neu foesau, neu er mwyn diogelu hawliau a rhyddid pobl eraill.*

Gallai datgelu gwybodaeth heb gydsyniad greu problem dan Erthygl 8. Fodd bynnag, nid yw hon yn hawl lwyr a bydd datgelu gwybodaeth er mwyn diogelu plant fel arfer yn weithred er mwyn diogelu iechyd neu foesau, neu ddiogelu hawliau a rhyddid pobl eraill, ac er mwyn atal anhrefn a throseddau, ac felly fe ddylai gwybodaeth gael ei rhannu.

Dylai datgelu fod yn briodol i'r diben a dim ond i'r graddau sy'n angenrheidiol i ateb y diben hwnnw. Dylid ceisio cyngor cyfreithiol lle y bo'n briodol, neu pan fo amheuaeth.

10.5 Mae Deddf Troseddau ac Anhrefn 1998, Adran 115 yn datgan fel a ganlyn:

Dylai unrhyw berson na fyddai, heblaw am yr isadran hon, yn meddu ar y grym i ddatgelu gwybodaeth wrth yr awdurdod perthnasol fod â'r grym i wneud hynny lle mae datgelu'n angenrheidiol neu'n fuddiol at ddibenion unrhyw un o ddarpariaethau'r Ddeddf hon.

(Mae'r Ddeddf yn berthnasol i sefydliadau statudol a chan fod llurgunio organau rhywiol merched yn drosedd, mae'n datgan yn glir y gallu i rannu gwybodaeth/gwneud atgyfeiriad dan weithdrefnau amddiffyn plant heb gydsyniad)

10.6 Canllawiau Proffesiynol

10.6.1 Meddygol

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) wedi paratoi canllawiau cyffredinol dan y teitl *Confidentiality: Protecting and Providing Information (2000)*. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd, dan y rhan fwyaf o amgylchiadau, cael cydsyniad claf i ddatgelu gwybodaeth bersonol, ond mae'n egluro, ym marn y Cyngor, y gall gwybodaeth gael ei rhyddhau i drydydd partiön – heb gydsyniad os yw'n angenrheidiol – dan rai amgylchiadau penodol. Gall yr amgylchiadau hyn gynnwys y canlynol:

10.6.1.1 Plant a chleifion eraill a all fod â diffyg galluedd i roi cydsyniad.

“Gall problemau godi os ydych yn ystyried nad yw'r claf yn gallu rhoi cydsyniad ar gyfer triniaeth neu ddatgeliad oherwydd anaeddfedrwydd, afiechyd neu analluedd meddyliol. Os yw cleifion o'r fath yn gofyn i chi beidio â datgelu gwybodaeth wrth drydydd parti, dylech geisio'u perswadio i ganiatáu i berson priodol fod yn rhan o'r ymgynghoriad. Os byddant yn gwrthod a'ch bod chithau wedi eich argyhoeddi bod hynny'n hanfodol, er lles eu lles hwy, gallwch ddatgelu gwybodaeth berthnasol wrth berson neu awdurdod priodol. Yn y fath achosion mae'n rhaid i chi ddweud wrth y claf cyn datgelu unrhyw wybodaeth a, lle y bo'n briodol, dylech geisio safbwyntiau eiriolwr neu ofalwra rhoi ystyriaeth ofalus iddynt. Dylech ddogfennu yng nghofnod y claf y camau yr ydych wedi'u cymryd i gael cydsyniad a'r rhesymau dros benderfynu datgelu gwybodaeth” (paragraff 38).

“Os ydych chi'n credu bod claf yn ddiodefwr esgeuluso neu gamdriniaeth gorfforol, neu rywiol neu emosynol, ac nad yw'r claf yn gallu rhoi na gwrthod rhoi cydsyniad i ddatgelu, dylech roi gwybodaeth i berson cyfrifol priodol neu asiantaeth statudol briodol, lle rydych yn credu bod datgelu'n rhywbeth sydd er lles y claf. Fel arfer dylech hysbysu'r claf eich bod yn bwriadu datgelu'r wybodaeth cyn i chi wneud hynny. Gall amgylchiadau o'r fath godi mewn perthynas â phlant lle gall fod angen rhannu pryderon ynghylch camdriniaeth bosib gydag asiantaethau eraill megis y gwasanaethau cymdeithasol. Lle y bo'n briodol dylech hysbysu'r rheiny â chyfrifoldebau rhiant ynghylch y datgeliad. Os byddwch, am unrhyw reswm, yn credu nad yw'r datgeliad yn rhywbeth sydd er lles y claf

sy'n cael ei g/cham-drin neu ei (h)esgeuluso, mae'n rhaid i chi ddal i fod yn barod i gyfiawnhau eich penderfyniad".

10.6.1.2 Datgelu er mwyn diogelu'r claf neu eraill

"Gall fod cyfiawnhad dros ddatgelu gwybodaeth bersonol heb gydsyniad lle gallai methu â gwneud hynny adael y claf neu eraill yn agored i'r risg o farwolaeth neu niwed difrifol. Lle mae trydydd partïon yn cael eu gadael yn agored i risg sydd mor ddifrifol fel ei fod yn gwrthbwysu budd preifatrwydd y claf, dylech geisio cydsyniad i ddatgelu lle y bo'n ymarferol. Os nad yw'n ymarferol, dylech ddatgelu'r wybodaeth yn brydlon wrth berson neu awdurdod priodol. Ar y cyfan dylech hysbysu'r claf cyn datgelu'r wybodaeth" (paragraff 36).

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol wedi cadarnhau bod ei ganllawiau ynghylch datgelu gwybodaeth a allai fod o gymorth i atal neu ganfod camdriniaeth yn berthnasol i wybodaeth am drydydd partïon (er enghraifft oedolion a allai greu risg o niwed i'r plentyn), a gwybodaeth am blant a all fod yn dioddef camdriniaeth.

10.6.2 Nyrsio

Mae'r **Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth** yn datgan fel a ganlyn:

- * Dylai datgeliad ddigwydd gyda chydsyniad y claf

Fodd bynnag gellir datgelu heb gydsyniad dan yr amgylchiadau canlynol:

- * Er budd y cyhoedd (fel arfer lle mae'r datgeliad yn hanfodol i ddiogelu'r claf, neu rywun arall rhag y risg o niwed sylweddol).
- * Os yw'n ofynnol yn gyfreithiol neu yn ôlgorchymyn llys

Mae canllawiau'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yn datgan:

- * *Lle mae mater sy'n ymwneud ag Amddiffyn Plant mae'n rhaid i chi weithredu bob amser yn unol â pholisïau cenedlaethol a lleol*

11. CANLLAWIAU PROFFESIYNOL AR LURGUNIO ORGANAU RHYWIOL MERCHED I WEITHWYR IECHYD PROFFESIYNOL.

Pryderon mewn perthynas â mam sydd wedi dioddef gweithred i lurgunio ei horganau rhywiol

11.1 Dylai gweithwyr ieched proffesiynol sy'n dod ar draws merch neu fenyw sydd wedi dioddef gweithred i lurgunio ei horganau rhywiol fod yn effro i'r risg o lurgunio organau rhywiol merched mewn perthynas â:

- Siblingiaid ifancach y fam
- Merched y fam neu ferched y gallai eu cael yn y dyfodol
- Aelodau o deulu estynedig y fam

11.2 Gweithwyr ieched proffesiynol mewn meddygfeydd teulu, clinigau ieched rhyw a gwasanaethau mamolaeth sydd fwyaf tebygol o ddod ar draws merch neu fam sydd wedi dioddef gweithred i lurgunio ei horganau rhywiol. Dylai pob merch a menyw sydd wedi dioddef gweithred i lurgunio ei horganau rhywiol dderbyn gwybodaeth am y goblygiadau cyfreithiol a'r goblygiadau o ran ieched sy'n gysylltiedig ag arfer y traddodiad o lurgunio organau rhywiol merched.

Mae Ymwelwyr Ieched a Bydwagedd a gweithwyr ieched eraill mewn sefyllfa dda i atgyfnerthu gwybodaeth am y canlyniadau o safbwynt ieched a'r gyfraith sy'n gysylltiedig â llurgunio organau rhywiolmerched.

11.3 Os yw merch neu fenyw sydd wedi cael ei dadwaëgu yn gofyn am gael ei gwaëgudrachefn yn dilyn genedigaeth plentyn, lle mae'r plentyn yn ferch, neu lle mae merched yn y teulu, dylai gweithwyr ieched proffesiynol ymgynghori â'u Hymgyngorydd Amddiffyn Plant Dynodedig a'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Blant yn yr ALI ynghylch gwneud atgyfeiriad atynt.

11.4 Ar ôl rhoi genedigaeth mae'n bosib y bydd merch/menyw sydd wedi cael ei dadwaëgu'n gofyn ac yn pharhau i ofyn am gael ei gwaëgu drachefn. Dylid trin hyn fel pryder sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Y rheswm dros hyn yw, er nad yw'r cais am gael ei gwaëgudrachefn ynddo'i hun yn fater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant, mae'r ffaith bod y ferch neu'r fenyw fel petai'n peidio â dymuno cydymffurfio â chyfraith y DU ac/neu ystyried bod y broses yn niweidiol, yn codi pryderon mewn perthynas â phlentyn/plant benywaidd y gall fod ganddi'n barod neu y gallai eu cael yn y dyfodol. Dylai gweithwyr proffesiynol ymgynghori â'u Hymgyngorydd Amddiffyn Plant Dynodedig a'r gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Blant yn yr ALI ynghylch gwneud atgyfeiriad atynt.

11.5 Os yw'r ferch neu'r fenyw'n fam neu'n ddarpar fam, dylid ystyried bod ei phlentyn/phlant neu blentyn heb ei eni'n agored i risg o niwed sylweddol. Dylai'r gweithiwr ieched proffesiynol ymgynghori â'u Hymgyngorydd Amddiffyn Plant Dynodedig a dylai wneud atgyfeiriad at y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Blant yn yr ALI.

- 11.6** Os oes gan y ferch neu'r fenyw blant benywaidd yn ei gofal, dylai'r plant hyn gael eu hystyried yn blant sy'n agored i risg o niwed sylweddol, dylid ymgynghori â'r Ymgynghorydd Amddiffyn Plant Dynodedig a gwneud atgyfeiriad at y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Blant yn yr ALI, fel a nodir uchod.
- 11.7** Dylai Bydwagedd, Ymwelwyr Iechyd, Nyrsys Ysgolion a Meddygon Teulu sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n unol â chanllawiau i sicrhau gwaith parhaus i fonitro iechyd a datblygiad plentyn/person ifanc a all fod yn agored i'r risg o ddioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merch.
- 11.8** Gweler hefyd Ganllawiau Cymdeithas Feddygol Prydain: *FGM: Caringforpatientsandchildprotection*

Mae'n bwysig nodi, pan fo Gweithiwr Iechyd Proffesiynol yn pryderu bod gweithred i lurgunio organau rhywiol merch yn debygol o ddigwydd neu wedi cael ei chyflawni, bod dyletswydd i wneud atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol.

http://www.bma.org.uk/images/FGMJuly06_tcm41-146715.pdf

Ni ddylai Gweithwyr Iechyd Proffesiynol ymchwilio i, nac ymdrin â'r mater hwn ar eu pen eu hunain.

Mae cyngor a chymorth ar gael gan Feddygon a Nyrsys Penodol y Bwrdd a'r Ymddiriedolaeth Iechyd a'r Meddygon a'r Nyrsys Dynodedig ar gyfer Amddiffyn Plant a gyflogir gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

12. CANLLAWIAU ARFER DA I STAFF SY’N GWEITHIO MEWN ADRANNAU GWASANAETHAU CYMDEITHASOL.

Os bydd amheuaeth bod achos o lurgunio organau rhywiol merch byddai’n rhaid ystyried bod y plentyn/plant yn agored i risg o niwed sylweddol.

Dylai unrhyw wybodaeth neu bryder bod plentyn yn agored i risg uniongyrchol o, neu wedi dioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merch arwain at atgyfeiriad dan y gweithdrefnau amddiffyn plant. Mae llurgunio organau rhywiol merched yn gadael plentyn yn agored i risg o niwed sylweddol a bydd felly’n arwain at ymchwiliad (i ddechrau) dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989 gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm Amddiffyn Plant yr Heddlu.

Os ceir atgyfeiriad mewn perthynas ag un plentyn mewn teulu, mae’n rhaid ystyried a oes sibliogiaid sy’n agored i risg tebyg.

Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i blant o deuluoedd eraill, unwaith y codir pryderon ynghylch achos o lurgunio organau rhywiol merch neu gyflawnwr gweithred i lurgunio organau rhywiol merch.

13. CANLLAWIAU ARFER DA: RÔL YR HEDDLU

Dylai unrhyw wybodaeth neu bryder bod plentyn yn agored i risg uniongyrchol o, neu wedi dioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merch arwain at atgyfeiriad dan y gweithdrefnau amddiffyn plant. Mae llurgunio organau rhywiolmerched yn gadael plentyn yn agored i risg o niwed sylweddol a bydd felly’n arwain at ymchwiliad (i ddechrau) dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989 gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm Amddiffyn Plant yr Heddlu.

Os ceir atgyfeiriad mewn perthynas ag un plentyn mewn teulu, mae’n rhaid ystyried a oes sibliogiaid sy’n agored i risg tebyg.

Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i blant o deuluoedd eraill, unwaith y codir pryderon ynghylch achos o lurgunio organau rhywiol merch neu gyflawnwr gweithred i lurgunio organau rhywiol merch.

14. CANLLAWIAU ARFER DA: RÔL Y SECTOR GWIRFODDOL

Dylai unrhyw wybodaeth neu bryder bod plentyn yn agored i risg uniongyrchol o, neu wedi dioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merch arwain at atgyfeiriad dan y gweithdrefnau amddiffyn plant.

Mae llurgunio organau rhywiol merched yn gadael plentyn yn agored i risg o niwed sylweddol ac felly bydd y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant yn ymchwilio i'r achos.

Os bydd aelod o staff neu wirfoddolwr yn amau bod plentyn yn agored i risg uniongyrchol o, neu wedi dioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merch dylai drafod hyn ar unwaith gyda pherson dynodedig y sefydliad ar gyfer Amddiffyn Plant a'i r(h)eolwr llinell.

Wedyn dylid gwneud atgyfeiriad at y Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn iddynt ymchwilio i'r achos yn unol â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan.

NI ddylai unrhyw angen i geisio cyngor neu arweiniad achosi unrhyw oedi yng gweithdrefn atgyfeirio'r asiantaeth ar gyfer achosion sy'n ymwneud ag amddiffyn plant.

Dylai'r holl staff sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd gael hyfforddiant mewn perthynas â llurgunio organau rhywiol merched.

Gellir cael mwy o gyngor a chymorth gan BAWSO Women'sAid, sefydliad arbenigol sy'n rhoi cymorth i fenywod a phlant o gymunedau du ac ethnig lleiafrifol yr effeithir arnynt gan gam-drin domestig. Mae BAWSO hefyd yn cynnig cymorth, cyngor, arweiniad a hyfforddiant mewn perthynas â materion diwylliannol sy'n effeithio ar gymunedau du ac ethnig lleiafrifol.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:

BAWSO
9 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9HA
Ffôn: 029 20 644633
www.bawso.org.uk

Sefydliad Cenedlaethol
FORWARD
www.forward.org.uk

15. CANLLAWIAU ARFER DA I STAFF SY’N GWEITHIO MEWN AWDURDODAU ADDYSG

Os bydd amheuaeth bod achos o lurgunio organau rhywiol merch byddai’n rhaid ystyried bod y plentyn/plant yn agored i risg o niwed sylweddol.

Dylai unrhyw wybodaeth neu bryder bod plentyn yn agored i risg uniongyrchol o, neu wedi dioddef gweithred i lurgunio organau rhywiol merch arwain at atgyfeiriad dan y gweithdrefnau amddiffyn plant.

Mae llurgunio organau rhywiol merched yn gadael plentyn yn agored i risg o niwed sylweddol a bydd felly’n arwain at ymchwiliad (i ddechrau) dan Adran 47 o Ddeddf Plant 1989 gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a Thîm Amddiffyn Plant yr Heddlu.

Os ceir atgyfeiriad mewn perthynas ag un plentyn mewn teulu, mae’n rhaid ystyried a oes siblingiaid sy’n agored i risg tebyg.

Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i blant o deuluoedd eraill, unwaith y codir pryderon ynghylch achos o lurgunio organau rhywiol merch neu gyflawnwr gweithred llurgunio organau rhywiol merch.

Canllawiau Arfer Da

Dylid ystyried y canllawiau hyn ar y cyd â Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (2008) a llawlyfrau Amddiffyn Plant yr Ysgol.

Mae Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a chyrff llywodraethol Ysgolion a gynhelir a Sefydliadau Addysg Bellach fod â threfniadau i gyflawni eu swyddogaethau gyda golwg ar ddiogelu a hybu lles plant. Mae’r ddogfen hon yn un o’r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru y mae’n ofynnol i Awdurdodau Lleol a chyrff llywodraethol roi sylw iddynt at ddibenion Adran 175 o Ddeddf 2002.

Mae Diogelu Plant mewn Addysg 2008 yn amlinellu rôl Ysgolion a’r meysydd cyfrifoldeb eang ar gyfer Swyddogion Arweiniol Dynodedig Amddiffyn Plant Awdurdodau Lleol gan gynnwys amgylchiadau arbennig o gam-drin megis llurgunio organau rhywiol merched.

16. CYFEIRIADAU

1. FemaleCircumcision (FemaleGenitalMutilation) Coleg Brenhinol yr Obstetregwyr a'r Gynecolegwyr, Mehefin 1997.
2. FemaleGenitalMutilation: CaringforpatientsandChildProtection. Canllawiau gan Gymdeithas Feddygol Prydain (2001)
3. FemaleGenitalMutilation: The UnspokenIssue, Y Coleg Nyrsio Brenhinol 1994.
4. GuidanceforDoctorsApproachedbyVictims of FemaleGenitalMutilation, Cymdeithas Feddygol Prydain, 1996.
5. Y Ddeddf Hawliau Dynol (1998)
6. Papur Safbwynt: FemaleGenitalMutilation (FemaleCircumcision). Coleg Brenhinol y Bydwragedd, Rhif 21, Mehefin 1998.
7. Deddf Llurgunio Organau Rhywiol Merched 2003 (Mae'n disodli Deddf Gwahardd Enwaedu Benywod 1985).
8. Y Ddeddf Plant. (1989)
9. Deddf Cyfiawnder Troseddol (Terfysgaeth a Chynllwynio) 1988.
10. Webb E., Hartley B. (1994) FemaleGenitalMutilation: a dilemmainchild protection. Archives of the Diseases of Childhood 70: 441-444
11. Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd dan Ddeddf Plant 2004 (LICC 2006)
12. Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (1989)
13. Safeguardingchildren at risk of abusethroughfemalegenitalmutilation. Bwrdd Lleol Diogelu Plant Llundain
14. BAWSO (2009). FemaleGenitalMutilation. Examining the practicein Wales.
15. Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008.
16. Canllawiau Ymarfer Amlasiantaeth Llywodraeth EM: FemaleGenitalMutilation. Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad 2011.

ATODIAD 1

**PROFFIL MYNYCHDER A DEDDFWRIAETH YN GWAHARDD LURGUNIO ORGANAU
RHYWIOL MERCHED YN AFFRICA**

Cynigir y ffigyrau hyn i roi syniad yn unig o raddfa'r arfer o lurgunio organau rhywiol merched, a ffigyrau ar gyfer Affrica ydynt, nid ar gyfer cymunedau yn y DU nad oes data ar fynychder ar gael ar eu cyfer.

Gwlad	Mynychder	Yn anghyfreithlon / ers
Benin	30%	Ddim eto
BurkinoFaso	72%	1996
Cameroon	20%	Ddim o gwbl
Chad	60%	Aeth gerbron y Senedd yn 2001, heb ei sefydlu eto
Gweriniaeth Canolbarth Affrica	43%	1966
Djibouti	98%	1995
Yr Aifft	97%	1959, mae manau llwyd, ond ym 1997 cafodd gwaharddiad ar lurgunio organau rhywiol merched gan y llywodraeth ei gadarnhau yn y llys
Eritrea	90%	Dim cyfraith benodol yn gwahardd yr arfer oherwydd y pryder y gallai hynny arwain at arferion cudd
Ethiopia	90%	1994
Gambia	Tua 70%	Ddim o gwbl
Ghana	15%	1994
Guinea	99%	Diwedd y 1980'au
Guinea Bissau	Tua 50%	1995 fe drechwyd cynnig gan y llywodraeth i'w wahardd
Arfordir Ifori	45%	1998
Liberia	60%	Ddim o gwbl
Mali	93%	Ddim o gwbl, ond deddfwriaeth ddrafft ac ymgyrchoedd gan y llywodraeth yn ei erbyn
Mauritania	25%	Ddim yn anghyfreithlon, ond wedi'i wahardd mewn ysbytai
Niger	5%	Ddim eto, deddfwriaeth ddrafft
Nigeria	%	Mewn rhai ardaloedd ers 1999
Senegal	20%	1999
Sierra Leonie	90%	Ddim o gwbl
Swdan	91%	1956, wedi'i ddiddymu ym 1983. Fe'i gwrthwynebir gan y llywodraeth ond nid mewn cyfraith
Somalia	100%	Mewn rhai ardaloedd ers 1999
Kenya	38%	2001
Tanzania	18%	1998, ond y gwaharddiad ddim yn cael ei orfodi
Togo	12%	1998

Gwlad	Mynychder	Yn anghyfreithlon / ers
Uganda	5%	Yn ystyried ei wahardd, gellir defnyddio deddfwriaeth plant
Yemen	23%	Ddim yn anghyfreithlon, ond wedi'i wahardd mewn ysbytai

Ffynhonnell: FemaleGenitalMutilation: Treating the Tears, HaseenaLockhat (2004)